# Cyngor Abertawe

# Adolygiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2017/18 (Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018)

# Adroddiad – Fersiwn Gryno

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn fformat gwahanol, e-bostiwch MynediadiWasanaethau@abertawe.gov.uk, ffoniwch 01792 636731 neu ysgrifennwch at y:
Swyddog Cydraddoldeb, Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE.

**Cyflwyniad**
Dyma grynodeb o Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2017-18. Dyma'n seithfed adolygiad dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011. Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yn www.abertawe.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol.

**Adolygu Ein Hamcanion Cydraddoldeb**
Buom yn adolygu ein cynnydd yn erbyn ein holl Amcanion Cydraddoldeb (sydd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol www.abertawe.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol) ym mis Ebrill 2018 gan roi diweddariad manwl yn yr adroddiad adolygu llawn. Dyma'r ail ddiweddariad i'n hamcanion ar gyfer 2016-2020 gan y gwnaethom fabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig yn 2016.

**Gwybodaeth am Gydraddoldeb**
Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb i lywio'n gwaith, e.e. Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, arolygon penodol a gwaith asesu anghenion.

**Gwybodaeth Cyflogaeth a Hyfforddiant**
Gellir dod o hyd i'r wybodaeth a gedwir am y gweithlu ar hyn o bryd yn yr adroddiad adolygu llawn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall (sy'n berthnasol i ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) yn ystod 2017-18.

Aelodau Hyrwyddo Cydraddoldeb - Mae ein Cynghorwyr Hyrwyddo yn gyfrifol am ystod eang o faterion cydraddoldeb yn ogystal â themâu ehangach megis iechyd a lles, gofalwyr a cham-drin domestig. Mae'r hyrwyddwyr yn rhoi llais i grwpiau neu faterion nad ydynt yn draddodiadol wedi'u cynrychioli'n ddigonol ac y mae angen eu cadw yn rheng flaen busnes y cyngor er nad ydynt efallai'n gyfrifoldeb i un unigolyn neu bwyllgor.

Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC) - Rydym yn parhau i ddefnyddio ein proses AEC estynedig, sy'n cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gofalwyr, cydlyniant cymunedol, tlodi, eithrio cymdeithasol a'r Gymraeg. Mae ein protocol Cydraddoldeb a Chynnwys (i sicrhau bod AEC yn cael eu holrhain a'u monitro trwy broses adrodd a phenderfynu'r cyngor) yn parhau i fod yn ddefnyddiol iawn wrth sicrhau yr ystyrir materion cydraddoldeb ac yr eir i'r afael â hwy lle y bo angen.

Ymgynghori a chynnwys - Rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol drwy'r Fforwm LGBT (y gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol, Drawsrywiol) (a gynhelir mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru), y Rhwydwaith BME Rhanbarthol (a arweinir gan y Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig (EYST)) a'n Grŵp Cydgysylltu Anableddau, er enghraifft.

Cydgynhyrchu - Eleni gwnaethom lansio Rhwydwaith Cydgynhyrchu ar gyfer Abertawe ym mis Mai 2018, yn dilyn lansiad Rhwydwaith Cydgynhyrchu Rhanbarthol ym mis Mawrth. Rydym yn parhau i ddefnyddio ymagwedd gydgynhyrchiol at brosesau caffael ac rydym wedi defnyddio arferion cydgynhyrchu i ddatblygu manylebau ar gyfer Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol, Byw â Chymorth, adolygiadau o Daliadau Uniongyrchol a datblygiad Fframwaith Arfer Gwasanaethau i Oedolion.

Troseddau Casineb - Rydym yn parhau i roi Cynllun Gweithredu Rhanddeiliaid Troseddau Casineb Abertawe ar waith gyda phartneriaid. Adolygwyd cwrs e-ddysgu'r cyngor ar droseddau casineb ac mae bellach yn gwrs gorfodol i holl staff y cyngor. I gynyddu pa mor aml yr adroddir am droseddau casineb, darparwyd hyfforddiant cynyddu ymwybyddiaeth gan y cyngor a Chymorth i Ddioddefwyr i'w bartneriaid. Mae'r cyngor wedi parhau i hyrwyddo Cymorth i Ddioddefwyr, sef y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Rhoi Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb swyddogol ar gyfer Cymru.

Cydlyniant Cymunedol - Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu'r rhaglen Cydlyniant Cymunedol am flwyddyn arall (2018-19). Bydd y rhaglen newydd yn canolbwyntio ar faterion allweddol, gan gynnwys chwalu rhwystrau i gynhwysiad ac integreiddio, darparu cefnogaeth a mynd i'r afael â gwahaniaethu ac eithafiaeth.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - Mae ein Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn pennu'r trefniadau sydd gennym i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw priodol ar gyfer cynnwys CCUHP yn fframwaith polisi'r awdurdod lleol. Mae cynllun gweithredu CCUHP ar gael yn seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd yn glir, sy'n cwmpasu ymagwedd cyngor cyfan at Hawliau Plant.

Addysg ac ysgolion - Mae dros hanner ysgolion Abertawe wedi defnyddio "My Concern" i gofnodi pob achos o bryderon diogelu/lles. Mae'r feddalwedd ddiogelu yn dileu'r angen am ffeiliau papur trwy fonitro a rheoli pob pryder lles sydd gan y plant a'r bobl ifanc.

Tlodi - Mae trechu tlodi'n flaenoriaeth gorfforaethol ac yn un o'r pum amcan allweddol yng Nghynllun Corfforaethol Abertawe. Cyhoeddwyd Strategaeth Trechu Tlodi ddiwygiedig ar gyfer Abertawe, "Gweithio tuag at ffyniant i bawb", yn 2018 sy'n cyd-fynd â Strategaeth Atal gyntaf Cyngor Abertawe ar gyfer Abertawe. Cyhoeddwyd hon yn 2018 hefyd.

Diwygio lles - Yn dilyn gwaith blaenorol i liniaru effaith negyddol diwygio lles, mae'r Tîm Hawliau Lles wedi parhau i ddarparu cefnogaeth a chyngor ynghylch budd-daliadau i unigolion. Mae'r tîm hefyd wedi cyflwyno amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant yn canolbwyntio ar y prif fudd-daliadau lles i staff yr awdurdod lleol, asiantaethau partner a sefydliadau eraill.

Cam-drin Domestig - Mae'r Siop dan yr Unto ar gyfer Cam-drin Domestig wedi parhau i ddatblygu ei gwasanaethau trwy ymagwedd bartneriaeth amlasiantaeth. Roedd yr amrywiaeth o wasanaethau a gynigiwyd ar draws y

continwwm angen, o gyfleuster galw heibio brys i'r Rhaglen Rhyddid, y Rhaglen Feithrin a sesiynau coffi a chrefftau. Darparwyd cymorthfeydd ar amrywiaeth o faterion hefyd - gan gynnwys cyngor cyfreithiol a chyngor ar gamddefnyddio sylweddau a dyledion. I atgyfnerthu ein hagenda ataliol, rydym wedi sefydlu'r Ganolfan Cam-drin Domestig yn dilyn adolygiad y cyngor o gam-drin domestig - rhan o adolygiad y cyngor o wasanaethau cefnogi teuluoedd trwy'r rhaglen Abertawe Gynaliadwy.

Fersiwn hawdd ei darllen- - Byddwn yn cyhoeddi ein hadolygiad blynyddol mewn fformat hawdd ei ddarllen eto eleni.

Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru - Mae gennym ymagwedd gydlynol at bob math o ddehongli a chyfieithu. Mae gennym hefyd wasanaeth negeseuon testun i breswylwyr.

Cronfa Newid - Cafodd 16 o sefydliadau mawr a gwirfoddol bach eu cefnogi'n ariannol yn ystod 2017-18 drwy grantiau i gyflwyno gwasanaethau a phrosiectau ar draws Abertawe. Yn 2018, diweddarwyd Cytundeb Compact Trydydd Sector yn amlinellu sut bydd Cyngor Abertawe a'r Trydydd Sector yn gweithio gyda'i gilydd yn y dyfodol.

Cyllid ar gyfer Plant a Phobl Ifanc LGBT - Trefnwyd bod arian grant ar gael o fis Ebrill 2013 am hyd at flwyddyn i ddarparu gwasanaeth cefnogi peilot i bobl ifanc LGBT 13-25 oed. Cafodd grantiau eu dyfarnu i ddau sefydliad er mwyn iddynt weithio ar y cyd i ddarparu'r gwasanaeth peilot. Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn llwyddiannus a chaiff ei adolygu yn 2018.

Gwaith gyda phobl hŷn - Cytunwyd ar Gynllun Lles Abertawe ym mis Mai 2018 gyda 'Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda' yn un o'r pedwar amcan allweddol i bartneriaid ganolbwyntio arno. Bydd y gwaith Heneiddio'n Dda'n cael ei gysylltu â gwaith yn y Cynllun Gweithredu Lles Lleol. Cynhaliwyd Digwyddiad Cynnwys Heneiddio'n Dda ym mis Ebrill 2017 i hyrwyddo gwasanaethau a gwybodaeth ac i gasglu barn am yr hyn y mae Heneiddio'n Dda'n ei olygu i bobl ynghyd â sut byddai canol dinas sy'n ystyriol o oed yn edrych. Roedd dros 200 o bobl yn bresennol a rhannodd 60 o bobl eu barn. Cynhaliwyd digwyddiad i nodi Diwrnod Pobl Hŷn y DU ym mis Hydref 2017 yn Stiwdio Theatr y Grand ac roedd dros 200 o bobl yn bresennol gyda thros 40 o arddangoswyr.

**Sylwadau Terfynol**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi ein galluogi i asesu ein cynnydd yn ystod ail flwyddyn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig. Gwnaed cynnydd yn erbyn ein holl amcanion cydraddoldeb ac rydym yn gadarnhaol iawn am swm yr wybodaeth ychwanegol sydd gennym i'w chyflwyno, ymhell y tu hwnt i'n hamcanion cydraddoldeb. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r agenda gydraddoldeb a'r cynnydd ychwanegol sy'n cael ei wneud.